

EVANS, JOHN (1702 - 1782), clerigwr gwrth-Fethodistaidd

Enw: John Evans
Dyddiad geni: 1702
Dyddiad marw: 1782
Rhiant: Rice Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr gwrth-Fethodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym Meidrym 2 Medi 1702, yn fab i Rice Evans ac yn yr i Thomas Price, a fu'n ficer Meidrym gyda Llanfihangel Abercwyyn am 39 mlynedd. Addysgwyd ef yn ysgol ramadeg Caerfyrddin ac yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, lle'r ymaelododd 26 Chwefror 1721-2, ond ni raddiodd (er y dywedir gan rai iddo raddio). Yn 1730, cafodd fywoliaeth Eglwys Cymyn (sillebir yr enw amryw ffyrdd) gan y Goron, ond ni wasnaethai'r plwyf ond am ychydig wythnosau bob haf - bu [Peter Williams](#) yn gurad iddo, ond cafodd ei droi ymaith am fod yn Fethodist. Yn Llundain yr oedd John Evans yn byw - yn Cowley Street, Westminster; yr oedd [Richard Morris](#) o Fôn yn gymydog a chyfaill iddo. Yr oedd mewn ffafr gan Edmund Gibson, esgob Llundain, a thua 1742 penodwyd ef yn 'Ddarllenydd' (h.y. yn gaplan na byddai'n pregethu) yng Nghapel y Brenin yn Whitehall. Yn 1750, pregethodd i'r 'Society of Antient Britons' ar ddydd Gyl Ddewi, a chyhoeddwyd y bregeth. Yr oedd yn aelod gwreiddiol (1751) o'r Cymmrodorion, ac yn aelod o gyngor y gymdeithas honno. Golygodd yn 1769 argraffiad o'r Beibl Cymraeg nad oedd ei orgraff wrth fodd y [Morysiaid](#). Eithr enillodd lawer mwy o sôn (yn hytrach, o anghlod) drwy ei ymosodiadau ar [Griffith Jones](#) ac ar Fethodistaeth - yn hyn o beth, dilynodd esiampl ei noddwr Gibson a chafodd ei anogaeth hefyd. Eisoes yn 1745 yr oedd rhyw ddrwg rhyngddo a [Griffith Jones](#); yn 1749 cyhoeddodd bamffledyn yn ei erbyn ef a Whitefield, ac yn 1752 ei draethawd *Some Account of the Welch Charity Schools* (etc.), ymosodiad bustlaidd dros ben, sydd er hynny'n cynnwys manylion gwerthfawr na ddylid mo'u hanwybyddu, er mor anodd yw gwahanu rhwng y ffeithiau a'r tro a rydd Evans iddynt. Gwnaeth y llyfr lawer mwy o ddrwg i enw John Evans nag i [Griffith Jones](#). Bu farw ym Mawrth 1782; claddwyd yn Eglwys Cymyn, meddai rhestr y plwyf, 14 Mawrth 1782.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Crybwylladau yn *Some Account of the Welch Charity Schools* (1752) (uchod)

Foster, *Alumni Oxonienses*

The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Môn) 1728-1765 (1907-9), i, 171, 174, 177, 197-8, 224

Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club, viii, 19

D. Salmon yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, i, 118-22; ii, 65-71, a hefyd yn yr atodiad i F. A. Cavenagh, *The life and work of Griffith Jones of Llanddowror* (Caerdydd 1930)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [75392441](#)

Wikidata: [Q6231974](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

